



Datblygiadau
Ysgol newydd
gwerth
£53.5
miliwn



Hwb o £53.5miliwn i ysgolion

Mae nifer o ddatblygiadau ysgol gyffrous newydd gwerth **£53.5miliwn** yn digwydd ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Mae Cyngor Caerffili a Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad arwyddocaol i ariannu prosiectau uchelgeisiol a fydd yn darparu ysgolion addas ar gyfer yr 21ain canrif.

Rhan o'r prosiect blaenllaw hwn yw adeiladu ysgol newydd £25.5miliwn, sef Ysgol Uwchradd Islwyn yn Oakdale. Bydd yr ysgol newydd yn gartref i ddisgyblion o'r hen Ysgolion Cyfun Oakdale a Phontllan-fraith.

Bydd yr adeilad 3 llawr trawiadol yn cynnwys manau addysgu modern ochr yn ochr â gweithdai technoleg celf diweddaraf, labordai gwyddoniaeth ac ystafelloedd TG. Bydd tiroedd y safle yn cynnwys maes 3G, trac athletau 200 metr a man chwarae amlddefnydd yn ogystal â manau dysgu awyr agored ac amffitheatr fach.

Yng ngogledd y fwrdeistref sirol, mae cynlluniau yn dod yn eu blaen i ddatblygu ysgol newydd sbon ar gyfer disgyblion o Ysgolion Cynradd Abertyswg a Phontlotyn. Cymeradwywyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y cynnig erbyn hyn a chytunwyd hefyd ar ddyraniad o £8miliwn.

Adeiladir yr ysgol newydd ar dir o fewn safle presennol Ysgol Gyfun Rhymini ger Abertyswg. Bydd datblygiad un llawr diweddaraf yn cynnwys Ysgol Gynradd, Ysgol Feithrin, uned Dechrau'n Deg a 'Chanolfan Integredig i Blant' sy'n cynnig darpariaeth gofal plant.

O'r diwedd, mae gwaith bron â'i gwblhau ar gyfleusterau chwaraeon newydd a chyffrous,

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

gan gynnwys maes 3G a man chwarae amlddefnydd yn y datblygiad £20miliwn a gwblhawyd yn ddiweddar, sef Ysgol Gymraeg y Gwyndy yng Nghaerffili.

Dywedodd y Cyngorydd Derek Havard, Aelod y Cabinet dros Addysg, "Mae disgyblion ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn elwa o fuddsoddiad digynsail i ddarparu cyfleusterau addysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain canrif. Mae hyn yn dangos yn glir ein hymrwymiad i godi safonau ysgolion a gwella'r amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc ar draws yr ardal."



Cyng. Derek Havard
Aelod Cabinet
dros Addysg

Cartrefi tai lloches yn barod i'w rhentu

Mae gan y cyngor nifer o gartrefi yn barod i'w rhentu mewn cynlluniau tai lloches ar draws y fwrdeistref sirol.

Ar gyfer pobl 60 oed neu'n hŷn, neu bobl ag anabledd, sydd eisïau byw yn annibynnol ond cartref llai neu'n haws ei reoli gyda chymorth, mae tai lloches yn ddewis gwych.

Mae cynlluniau tai lloches y Cyngor yn cynnwys byngalos, fflatiau neu fflatiau un ystafell sydd yn gwbl hunan -gynhwysol, gyda'u hystafell ymolchi a chegin ei hun. Ceir hefyd ardaloedd cymunedol lle gall tenantiaid gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae tai lloches yn cynnig llawer o fanteision, gan gynnwys:

- Swyddog Tai lloches sydd ar gael naill ai bore neu brynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Adeiladau diogel a sicr
- Cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i denantiaid gael trin a thrafod syniadau
- Digwyddiadau cymdeithasol a mynediad at gydlynnydd gweithgareddau
- Gwasanaeth monitro larwm 24 awr / 365 diwrnod y flwyddyn



Am fwy o wybodaeth am lefydd gwag presennol, ewch i: www.caerffili.gov.uk/Gwasanaethau/Tai neu ffoniwch Dîm Dyraniad y cyngor ar **01443 873669** I gael gwybod mwy am yr hyn y gall tai lloches eu cynnig, cysylltwch â Thîm Tai Pobl Hŷn ar **01495 235383**

Gwelliannau yn Llyfrgell Ystrad Mynach

Bydd Llyfrgell Ystrad Mynach yn ailagor i aelodau'r cyhoedd ar ddydd Llun 10fed Hydref ar ôl cael gweddnewidiad mewnol trawiadol.

Bydd y gwaith gwella £48,000 yn cynnwys dodrefn mewnol newydd, sillfoedd a desg staff, yn ogystal â charpedi newydd ac addurno mewnol ar draws y llyfrgell. Bydd y gwaith yn helpu sicrhau bod y cyfleuster pwysig yng nghanol y dref yn gallu cynnig cyfleusterau modern a deniadol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Tra bod y llyfrgell ar gau dros dro, mae trigolion yn gallu cael mynediad at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau cyfrifiadurol mewn unrhyw un o lyfrgelloedd eraill y fwrdeistref sirol.

I gael gwybodaeth am gyfleusterau llyfrgelloedd, ewch i www.caerffili.gov.uk/Gwasanaethau/Llyfrgelloedd neu ffoniwch **01443 864068**

Y gyfradd llwyddo cyffredinol ar gyfer Lefel A oedd **97%**

Myfyrwyr yn dathlu llwyddiant mewn arholiadau

Mae myfyrwyr ar draws bwrdeistref sirol Caerffili wedi bod yn dathlu eu cyflawniadau yn y Safon Uwch a TGAU.

Y gyfradd llwyddo dros dro cyffredinol ar gyfer Safon Uwch CBAC oedd 97% (A* - E), yn gyson â'r canlyniad dros dro o 2015. Y canlyniad dros dro ar gyfer graddau Safon Uwch CBAC A* - A oedd 16.6%, cynnydd o dros 1% o'i gymharu â'r canlyniad dros dro o 2015, ac 69.8% o'r graddau C neu uwch, eto yn gweld cynnydd bach o'i gymharu â'r canlyniad dros dro o 2015.

Gyda TGAU, mae canlyniadau

arholiadau CBAC dros dro yn dangos y gyfradd basio (graddau A* - G) yn 98.3%. Mae canlyniadau dros dro hefyd yn dangos y gyfradd pasio A* - C pasio yw 61.1% a'r gyfradd pasio graddau A* - A yw 15.8%.

Dyweddodd y Cynghorydd Derek Havard, "Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i lawer o ymroddiad, gwaith caled a dyfalbarhad gan ein myfyrwyr, ynghyd ag ymrwymiad a chefnogaeth broffesiynol eu hathrawon wrth helpu'r myfyrwyr i wireddu eu potensial. Dymunaf bob llwyddiant i'r myfyrwyr yn eu hymdrechion yn y dyfodol."

Diweddariad ar weithfeydd Pwll-y-Pant

Mae cynlluniau arfaethedig i gynnal gwaith gwella ar gylchfan strategol allweddol ger Pwll-y-pant, Caerffili yn cael eu gohirio er mwyn osgoi gwrthdaro â chynllun mawr arall.

Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl am benderfyniad ariannu ffurfiol gan Lywodraeth Cymru am gynllun Pwll-y-pant ac nid yw'n glir ar hyn o bryd pryd fydd hyn yn cael ei dderbyn.

Yn ddiweddar mae Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf wedi dechrau gwaith gwella sylweddol ar draphont Fiddlers Elbow yn Abercynon gerllaw. Y draphont yw un o'r prif lwybrau i'r ardal ac mae'r gwaith tri mis yn debygol o arwain at gynnydd yn y llif y traffig sy'n defnyddio'r lwybrau eraill, gan gynnwys Cylchfan Pwll-y-pant.



O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi penderfynu gohirio'r gwaith gwella prifffyrdd arfaethedig ym Mhwll-y-pant er mwyn osgoi unrhyw amhariad ychwanegol i draffig a defnyddwyr y ffyrdd. Y gobaith yw, ym modol ar sicrhau'r arian angenrheidiol, gall y gwaith arfaethedig ddigwydd yn haf 2017.

Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn bwriadu ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y gylchfan i adnewyddu marciau ffordd ym Mhwll-y-Pant mewn ymateb i bryderon ynghylch diogelwch prifffyrdd. Yn ogystal, bydd mân weithfeydd hefyd yn cael eu cynnal i'r ffyrdd tua'r gorllewin i gylchfan Trecenydd er mwyn newid marciau'r lôn i wella effeithlonrwydd ei weithrediad. Mae'r marciau ffordd ar gylchfan Penrhos wedi eu hadnewyddu yn ddiweddar hefyd.



Diolch am eich ymdrechion GWYRDD!

Mae'r ffigyrau ailgylchu diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod Caerffili wedi rhagori ar ei darged ailgylchu ar gyfer 2015/16, diolch i ymdrechion trigolion gwyrdd ar draws yr ardal.

Heriwyd cynghorau gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd targed o 58% yn 2015/16, ond rhagorodd Caerffili ar y targed hwn gyda ffigwr o 62%.

Dyweddodd y Cynghorydd Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol, "Rydym yn croesawu'r ffigyrau ailgylchu diweddaraf ac yn awyddus i ddweud diolch yn fawr iawn i'r holl drigolion sy'n gwneud eu rhan i'n helpu cyrraedd y targedau uchelgeisiol hyn."

Ychwanegodd, "Rydym hefyd yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd, ac ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio sylw ar gynyddu ailgylchu gwastraff bwyd ymhellach. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn roi hwb i'n cyfraddau ailgylchu yn y dyfodol a gwneud Caerffili yn un o'r llefydd gwyrddaf yng Nghymru."

Yn ôl ym mis Mai, cynhaliodd y cyngor ymarfer monitro 7,000 o eiddo a ddewiswyd ar hap i fesur cyfranogiad mewn ailgylchu gwastraff bwyd. At ei gilydd, roedd y gyfradd gyfranogiad tua 38%, felly rydym bellach wedi datblygu ymgyrch i helpu cynyddu'r ffigwr hwn. Mae cam cyntaf yr ymgyrch 'A yw eich bin chi'n pechu?' yn cynnwys trigolion yn derbyn ymweliad wrth y drws gan swyddog hyfforddedig sy'n cynrychioli'r cyngor.

Rydym yn amcangyfrif nad yw yn agos at 7,000 tonnelli o wastraff bwyd yn cael ei ailgylchu ar hyn o bryd, ac yn hytrach, mae'n cael ei roi mewn biniau gwastraff cyffredinol. Os fyddai pob cartref yn cymryd rhan mewn ailgylchu gwastraff bwyd, gallai'r cyngor arbed bron i £200,000 y flwyddyn, arian a allai fynd tuag at ddiogelu gwasanaethau rheng flaen eraill.

Mae ailgylchu gwastraff bwyd yn hawdd:

✓

Dylid defnyddio cadis i ailgylchu'r eitemau bwyd canlynol:

- Ffrwythau a llysiau
- Bara wedi llwydo/hen fara
- Bagiau te a phliscgyn wy
- Cig a physgod
- Bwyd anifeiliaid
- Esgyrn
- Cynhyrchion llaeth
- Reis a phasta
- Grawnfwydydd

✗

Mae'n ddrwg gennym, ond ni allwn dderbyn:

- Deunydd pacio o unrhyw fath
- Hylifau megis llaeth
- Olew fel olew coginio wedi'i defnyddio
- Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd

I wneud cais am gadi gwastraff bwyd rhad ac AM DDIM, neu i wirio eich diwrnod casglu gwastraff bwyd, ffoniwch y tîm ar 01443 866 533 neu ewch i www.caerffili.gov.uk

'Bargen Ddinesig' £1.2 biliwn yn symud ymlaen

Cyngor Caerffili yw un o ddeg awdurdod lleol ar draws De Ddwyrain Cymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno ystod o fuddion ar gyfer y rhanbarth.

Yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae'r deg cyngor yn datblygu cynllun ar gyfer Llywodraeth y DU i fuddsoddi yn y ddinas-ranbarth er mwyn darparu swyddi a chynyddu allbwn economaidd.

Mewn rhannau eraill o'r DU, mae Bargeinion Dinesig wedi rhoi symiau sylweddol o gyllid newydd i gefnogi datblygiad isadeiledd ar gyfer dinas-ranbarthau tebyg.

Dyweddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Keith Reynolds, "Mae'r prosiect uchelgeisiol newydd hwn yn nodi cyfnod cyffrous newydd ar gyfer y rhanbarth. Mae'n wych gweld deg cyngor lleol yn cydweithio gyda nod cyffredin o ddod â ffyniant a chyfleoedd i'n cymunedau yn y dyfodol."

Mae cytundeb wedi cael ei greu yn neilltuo £1.2 biliwn o fuddsoddiad, gan gynnwys datblygiad Metro De Cymru; cymorth ar gyfer arloesi a isadeiledd digidol; datblygu sgiliau a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith; hybu menter a thwf busnes; a gweithgareddau ehangach mewn adfywio a thai.

Y gobaith yw y gall helpu i gyflwyno 25,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth a denu hyd at £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat.

Lleihau ein hól troed carbon

Mae'r gwaith i osod paneli solar ar bum cartref preswyl bwrdeistref sirol Caerffili wedi ei gwblhau yn ddiweddar.

Bydd y paneli, a osodwyd yng nghartrefi preswyl Min Y Mynydd, Canolfan Adnoddau Brodawl, Beatrice Webb, Tŷ Clyd a Thŷ Iscoed, yn cynhyrchu digon o drydan i redeg yr hyn sy'n cyfateb i ysgol gynradd fach neu Lyfrgell Caerffili am flwyddyn gyfan.

Bydd y paneli ffotofoltaidd hefyd yn cynhyrchu tua £350,000 o fuddion ariannol i'r cyngor yn ogystal ag atal rhyddhau 55 tonnelli o allyriadau carbon, yn gwneud y paneli yn fuddsoddiad ariannol ac amgylcheddol gwych.



Dyweddodd y Cynghorydd Ken James, "Bydd gosod y paneli hyn yn cynhyrchu swm syfrdanol o 124,324 cilowat awr y flwyddyn ac ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, yn ogystal ag atal 55 o dunelli o allyriadau carbon yn cael eu gollwng i'r atmosffer bob blwyddyn. Rwyf wrth fy modd ei fod wedi bod yn bosibl i osod cynifer o'r paneli gan y byddant yn dod â llawer o fanteision amgylcheddol ac ariannol i'r fwrdeistref sirol."

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor hefyd yn gweithio ar raglen o adnewyddu goleuadau stryd sodiwm gwasgedd isel gyda goleuadau LED mwy effeithlon o ran ynni. Yn ogystal ag arbedion ariannol o tua £27,000 y flwyddyn, bydd y rhaglen hon hefyd yn arbed 225,596 cilowat awr o drydan ac atal rhyddhau 93 tonnelli o allyriadau carbon i'r atmosffer.

Ydych chi wedi cofrestru?

Dros yr wythnosau diwethaf, bydd trigolion wedi derbyn llythyr gan dîm Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor fel rhan o broses gofrestru flynyddol y cyngor. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys manylion am bwy sydd wedi eu cofrestru ym mhob cyfeiriad.

Diolch yn fawr iawn i'r holl aelwydydd sydd wedi ateb yn barod - ond i'r rhai sydd eto i wneud hynny, mae'n bwysig iawn eu bod yn ymateb cyn gynted â phosibl.

Bydd preswylwyr nad ydynt wedi ymateb hyd yma yn derbyn nodyn atgoffa, yn gofyn iddynt gadarnhau a yw'r wybodaeth dal i fod yn gywir neu i roi manylion am unrhyw newidiadau yn y cyfeiriad. Os nad oes unrhyw newidiadau gall preswylwyr ymateb drwy radffôn, neges testun, drwy'r post neu ar-lein. Gall unrhyw newidiadau ond cael eu gwneud drwy ddychwelyd y ffurflen neu

ar-lein yn www.register-online.co.uk

Os yw deiliaid tai eisiau ychwanegu enw at y gofrestr, bydd y cyngor yn cysylltu â'r unigolyn i drefnu iddynt gofrestru. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob aelwyd i ymateb i'r ffurflen, a phwy bynnag sydd yn gwrthod, byddent yn derbyn ymweliad gan arolygwr o'r Cyngor.

Caiff y gofrestr etholiadol ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o bethau, gan gynnwys gwiriadau credyd, ac mae'n bosibl y bydd y trigolion hynny nad ydynt ar y gofrestr yn ei chael yn anodd cael benthyciad, morgais, cytundeb cyllid neu hyd yn oed gcontract ffôn symudol. Mae cofrestru yn rhwymedig aeth gyfreithiol ac yn gwneud yn siwr fod trigolion yn gallu arfer eu hawliau democrataidd yn y blwch pleidleisio.

Bydd y gofrestr etholiadol yn cael ei chyhoeddi ar y 1af o Ragfyr eleni.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 01443 866909 neu drwy fynd i www.caerffili.gov.uk

Y 'QUEST' am Ragoriaeth

Mae Gwasanaeth Hamdden a Chwaraeon y cyngor yn dathlu, wedi ennill gwobr ansawdd genedlaethol ym mhedair o'i ganolfannau hamdden.

Mae gwobr ansawdd 'Quest' yn asesu gwahanol agweddau o'r gwasanaeth hamdden, gan gynnwys iechyd a diogelwch, hylendid, effaith ar y gymuned a gofal cwsmeriaid, ac wedi cael ei ddyfarnu i bedair canolfan hamdden bwrdeistref sirol Caerffili - Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga. Mae'r asesiad er mwyn cyflawni achrediad 'Quest' yn cynnwys nifer o ymweliadau dirgel ac asesiad ar y safle.

Dyweddodd y Cynghorydd Nigel George, "Mae'n wych bod pedair o'n canolfannau hamdden wedi cyflawni'r safonau sy'n ofynnol i ennill y wobwr hon a gydnabyddir yn genedlaethol, sydd yn ardystiad o ba mor dda mae ein canolfannau hamdden yn cael eu gweithredu. Mae gwobr Quest hefyd yn dangos bod staff yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon i gwsmeriaid a bod ein safonau yn gwella'n barhaus."

'Quest' yw cynllun ansawdd y DU ar gyfer rheoli cyfleusterau chwaraeon a hamdden ac mae'n safon gydnabyddedig y diwydiant, a gymeradwywyd gan gryff llywodraethol fel Chwaraeon Cymru a Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Hamdden.

am fwy o wybodaeth, ewch i www.caerffili.gov.uk/DULLBYWHAMDDEN



Amddiffynfeydd rhag llifogydd Rhisga

Mae Cyngor Caerffili a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi adeiladu amddiffynfeydd llifogydd newydd a chryfhau'r rhai presennol yn Rhisga a Phont-y-meister.

Mae'r prosiect, a ariannir gan y cyngor, CNC a thrwy grant wrth ddyrannu cymorth gan Lywodraeth Cymru, wedi galluogi amddiffynfeydd rhag llifogydd cael eu hadeiladu ym Mharc Waunfawr a Pharc Newydd, ynghyd ag adnewyddu rhai o'r amddiffynfeydd presennol yn Rhisga a Phont-y-meister. Bydd yr amddiffynfeydd newydd a gwell yn helpu nid yn unig i amddiffyn yn erbyn llifogydd o Afon Ebwy, ond hefyd o fudd i'r cannoedd o gartrefi a busnesau.

Dyweddodd y Cynghorydd David Hardacre, "Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o ddau sefydliad yn y sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i ddatrys risg llifogydd hirsefydlog ar y cyd, ac wrth wneud hynny, yn diogelu cartrefi ac hefyd o bosibl yn rhyddhau tir ar gyfer datblygu yn y dyfodol a fydd yn adfywio'r ardal."



Gyda thros 40 mlynedd o brofiad rheoli eiddo a thenantiaeth, rydym yn ehangu ein asiantaeth gosod tai yn ardal Caerffili, a gallwn gynnig y gwasanaethau canlynol: landlordiaid preifat:

Cynnigwng

- ✓ Dim ffioedd cychwyn y sefydlu
- ✓ Dim ffioedd gweinyddu
- ✓ Dim angen bod yn landlord drwyddedig

Hefyd

- ✓ Gwasanaeth Gweinyddu rhad ac am ddim am 12 mis
- ✓ Stocrestrau, adroddiadau a chofnodion mewn ac allan am ddim
- ✓ Archwiliadau tai rhad ac am ddim gan swyddogion cymwysedig
- ✓ Arweiniad a chynigwr am ddim

Fe wnawn bobeth i chi!

Unwaith y byddwch wedi cofrestru â Cartrefi Prydlesu Tai Hafod, byddwn yn dod o hyd i denantiaid addas ar gyfer eich eiddo, cynnig gwasanaeth ymgartrefi iddynt, a chynnig gwasanaeth cynorthwyo tenantiaeth hir dymor os oes angen.

Nid oes angen cael trwydded gyda Cynllun Rent Smart Wales.

Mae Cartrefi Hafod a'i staff yn drwyddedig felly nid oes rhaid i chi gael trwydded hefyd Bydd yn rhaid i chi ddal i gofrestru fel landlord preifat a cheir y wybodaeth am hyn ar wefan Rent Smart Wales.

Diddordeb?

Cysylltwch â Nicola Meredith o Hafod ar 029 2077 9841
nicola.meredith@hafod.org.uk

Neu cysylltwch â'r Ganolfan Cynghori Tai gyda Chartrefi Caerffili ar 01443 873564
housingallocations@caerphilly.gov.uk

Cartrefi Hafod mewn partneriaeth â Chartrefi Caerffili.

Ffyrdd yn barod ar gyfer y gaeaf

Mae'r rhwydwaith priffyrdd ar draws y fwrdeistref sirol wedi elwa o waith ail-wynebu gwerth dros £ 2.3miliwn dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Wrth i'r gaeaf nesáu, mae'r cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i wella cyflwr ffyrdd lleol gyda 34 gwahanol safle ar draws yr ardal wedi eu hail-wynebu fel rhan o'r rhaglen CAUTS* hyd yn hyn gyda 49 safle arall yn rhaglen Medi/Hydref, bydd 31 o'r 49 safle yn cael eu trin gyda thechneg amddiffyn wyneb y ffordd o'r enw 'Micro Asphalt' a 18 gyda deunyddiau ail-wynebu confensiynol.

**Defnyddiwyd techneg arloesol o'r enw 'CAUTS' (wynebtau tenau iawn a osodwyd yn oer) ble mae cerrig mân yn ymgorffori'n gadarn yn wyneb y ffordd gyda 'chwisrell cloi' arbennig o fewn 24 awr ar ôl iddynt gael eu lleadaenu.*

Mae hyn yn welliant ar y dechneg 'trin wyneb' blaenorol a oedd yn dibynnu ar symudiad traffig i ymgorffori'r cerrig mân rhydd i mewn i wyneb y ffordd dros gyfnod o amser ar ôl iddynt gael eu gosod. "Rwy'n siwr y croesawir y buddsoddiad hwn gan fodurwyr ar draws yr ardal gan ei fod wedi arwain at welliant amlwg i'n rhwydwaith priffyrdd," meddai'r Cynghorydd Tom Williams, Aelod Cabinet dros Gludiant a Phriffyrdd.



Am fwy o wybodaeth am briffyrdd a threfniadau cynnal a chadw yn y gaeaf, ewch i www.caerffili.gov.uk

"Rydym hefyd yn falch o ddefnyddio technoleg newydd i wneud y gwaith mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol. Bydd y system CAUTS yn lleihau'n sylweddol faint o gerrig mân rhydd a adawir ar y ffordd yn dilyn y math hwn o waith."

Mae tîm Priffyrdd y Cyngor hefyd yn paratoi ar gyfer misoedd oer y gaeaf o'n blaenau. Mae dros 10,000 tonnelli o raean yn cael eu pentyrru mewn storffeydd lleol ac mae ffylod o 13 o gerbydau graeanu yn barod i daenu 420km o rwydwaith ffyrdd ar draws yr holl fwrdeistref sirol er mwyn cadw modurwyr yn symud.

Mae hefyd 880 o finiau graean wedi'u lleoli'n strategol o amgylch yr ardal fel y gall trigolion 'helpu eu hunain' - yn enwedig mewn ffyrdd ochr ac ardaloedd preswyl oddi ar y prif ffyrdd ble mae'r cerbydau graeanu'n canolbwyntio ar eu gwaith.

Prydau ysgol am ddim

Mae nifer o blant ar draws bwrdeistref sirol Caerffili eisoes yn mwynhau prydau ysgol am ddim, a gall mwy hefyd- ond nid yw eu rhieni neu ofalyddion yn ymwybodol eu bod efallai'n gymwys.

Gall plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol yn llawn amser gael hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim os yw eu rhieni yn derbyn unrhyw un o'r canlynol:

- ✓ Cymhorthdal Incwm
- ✓ Lwfans Ceisio am Waith yn Seiliedig ar Incwm
- ✓ Cymorth Lloches dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnffudo a Lloches 1999
- ✓ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- ✓ Credyd Cynhwysol
- ✓ Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydynt yn cael hawlio Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol yn llai na £16,190
- ✓ Elen Gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- ✓ Credyd Treth Gwaith 'rhedeg ymlaen' - y taliad bydd rhywun o bosib yn ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddynt offen bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith

Gallai rhieni sy'n talu ar gyfer prydau ysgol i'w plentyn arbed tua **£580 y flwyddyn** os ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd derbyn prydau ysgol am ddim hefyd yn galluogi rhieni a gofalyddion i gael grant dillad untro o **£105** pan fydd eu plentyn yn symud o'r ysgol gynradd i'w blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd.

Mae'r nifer o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim hefyd yn ffactor bwysig er mwyn adrodd perfformiadau ysgol, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru er mwyn penderfynu lefelau'r cyllid ar gyfer ysgolion a'r cyngor. I ddweud y gwir, mae'r ysgolion yn derbyn **£1,050** o gyllid ychwanegol ar gyfer pob plentyn sydd wedi cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim.



Gall pobl ifanc sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cymorth, Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm hefyd gael yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Dylai rhieni sydd eisiau mwy o wybodaeth am brydau ysgol am ddim, neu i gyflwyno cais fynd i www.caerffili.gov.uk, ffonio 01443 864055 neu e-bostio arlwy@caerffili.gov.uk

Rhedeg am SbRi



Yn dilyn llwyddiant Tim PF yng Ngemau Olympaidd Rio, mae llawer o bobl wedi cael eu hysbrydoli i fod yn egniol a rhoi cynnig ar bethau newydd.

Os oes awydd gyda chi am her newydd, beth am roi cynnig ar un o'r clybiau rhedeg newydd sydd ar gael yn nau Ganolfan Hamdden leol?

Oherwydd y galw mawr, cyflwynwyd sesiynau rhedeg yng Nghanolfannau Hamdden Caerffili a Rhisga. Mae'r ddwy ganolfan yn cynnig sesiwn wythnosol, bob dydd Mercher, o 6pm tan 7pm. Mae clybiau rhedeg ar draws y fwrdeistref sirol wedi cynyddu'n gyson dros y flwyddyn ddiwethaf gyda 425 o aelodau cyswllt yn perthyn i Athletau Cymru, o'i gymharu â 296 yn 2015.

Ochr yn ochr â'r clybiau rhedeg hyn, mae hefyd nifer o glybiau hamdden ar gael, sy'n cynnwys dros 200 o redwyr ym mharciau ac ar strydoedd y fwrdeistref sirol. Un o'r rhai mwyaf poblogaidd yw'r digwyddiad Parcrun Penallta, gan ei wneud yn un o'r digwyddiadau rhedeg mwyaf yn yr ardal. Mae'r clybiau rhedeg hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn y cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ymgymryd â'r Caerffili 10k gyda dros 2,300 o bobl yn rhedeg yn 2016, o'i gymharu ag ychydig dros 2,000 yn 2015.

Dyweddodd y Cynghorydd Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden, "Mae'n wych gweld y clybiau hyn yn cael eu defnyddio gan breswylwyr o bob oedran a gallu. Mae byw'n iach yn rhywbeth rydym yn ei annog bob amser ac mae'n wych cael y sesiynau lleol hyn i helpu rhoi hwb i'n cymhelliant i ddod yn genhedlaeth iachach a mwy heini."

UNO I WELLA ANSAWDD AER

Mae ‘grŵp llywio’ o drigolion a chynrychiolwyr y Cyngor wedi cael ei sefydlu i edrych ar gamau i’w cymryd i wella ansawdd aer yn Hafodyrynys.



Cychwynnodd y gwaith o fonitro ansawdd aer yn Hafodyrynys yn 2009, ac ar ôl cynnal asesiad manwl o’r ansawdd aer cafodd rhan o Heol Hafodyrynys ei neilltuo yn ‘Ardal Rheoli Ansawdd Aer’ ym mis Tachwedd 2013.

Mae gwelliannau i gyffordd Crymlyn ar yr A467/ A472 yn debygol o fod yn fuddiol yn nhermau ansawdd aer yn yr ardal, ond yn ogystal â hyn, mae angen ‘Cynllun Rheoli Ansawdd Aer’ ar ardal sydd wedi’i neilltuo yn ‘Ardal Rheoli Ansawdd Aer’ sy’n cynnwys gweithredoedd allweddol sydd wedi’u

hanelu at leihau lefelau’r nitrogen deuocsid (sydd, yn bennaf, yn cael ei achosi gan draffig) yn yr ardal.

Roedd cyfarfod o’r ‘grŵp llywio’ a gynhaliwyd yn ddiweddar yn gam cychwynnol tuag at Iunio’r cynllun gweithredu. Roedd hefyd modd i drigolion fynegi eu pryderon ac archwilio awgrymiadau i helpu i ddatrys sefyllfa’r ansawdd aer gwael a fydd yn cael eu hasesu i ystyried a ddylent gael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Meddai’r Cynghorydd Nigel George, “Rydym yn cydnabod er bod peth gwaith gwella wedi ei wneud yn yr ardal, mae llawer mwy o waith i’w wneud. Dyna pam ein bod yn falch i ddod ynghyd gyda’r trigolion lleol a’n partneriaid i archwilio syniadau cychwynnol. Dyma’r dyddiau cynnar yn y broses a byddwn yn pwysleisio ein bod, gyda chefnogaeth y gymuned, yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud popeth yn ein gallu i helpu i wella sefyllfa’r ansawdd aer.”

Disgwylir y bydd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Hafodyrynys wedi’i Iunio ar ffurf drafft erbyn mis Tachwedd pan fydd aelodau’r gymuned a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar gynnwys y drafft. Ar ôl hynny, caiff y cynllun diwygiedig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei ystyried ym mis Mawrth 2017.



Bydd y rhai sy’n teithio ar fysiau yn ymwybodol bod newidiadau wedi cael eu gwneud i nifer o wasanaethau bws ar draws bwrdeistref sirol Caerffili ers diwedd mis Gorffennaf.

- Mae’r mwyafrif o’r newidiadau wedi’u gwneud i gynnal rhwydwaith cynhwysfawr ar draws y fwrdeistref sirol ac mae rhai gwasanaethau wedi cael eu newid er mwyn:
- Gwella dibynadwydd – mae rhai llwybrau wedi dod yn annibynadwy dros y blynyddoedd diwethaf a lle y bo’n bosib mae amserlenni wedi cael eu newid i helpu bysiau i gadw at yr amserlen.
- Cynnal a gwella cysylltiadau – yn ogystal â gwella dibynadwyedd, mae amserlenni wedi cael eu llunio i wella a chynnal cysylltiadau lle y bo’n bosib. Er enghraifft, ar Ddydd Sul, mae Llwybr C wedi cael ei ddiwygio i roi cysylltiadau gwell i Gaerdydd.
- Cynyddu gwasanaethau lle y mae niferoedd y teithwyr yn cynyddu - Yn 2011 cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i wasanaethau ar Ddydd Sul. Ar rai llwybrau, mae niferoedd y teithwyr wedi cynyddu o hyd at 25% felly mae’r amllder ar rai amserlenni wedi cael ei gynyddu. Ar Ddydd Sul, erbyn hyn, mae Llwybrau 26, 151 a B yn gweithredu bob awr drwy gydol y mwyafrif o’r dydd.
- Ateb ceisiadau gan gwsmeriaid - y llynedd, cynhaliodd y Cyngor a Bus Users Cymru nifer o sesynau galw heibio. Derbyniwyd dros 100 o sylwadau ac mae rhai o’r newidiadau o ganlyniad i’r awgrymiadau hyn. Maent yn cynnwys ymestyn Llwybr H i wasanaethu siop Aldi yng Nghaerffili, gwyro Llwybr 26 o amgylch Parc Nantgarw yn ystod y nosweithiau ac ar Ddydd Sul, gwella dibynadwyedd oriau dydd ar Lwybr 151 a gwasanaeth bws cynharach ar Ddydd Sul ar Lwybr 1 o Bont Rhymni i Fargod.
- Fel rhan o ofynion arbedion i gyllideb y Cyngor - yn anffodus, mae’r Cyngor wedi gorfod gwneud rhai arbedion i’w gyllideb cymorthdaliadau bysiau fel rhan o’i ofynion i arbed arian ar gyfer 2016/17. Tra bod y Cyngor wedi ceisio lleihau’r effaith, mae rhai o’r teithiau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn aml wedi cael eu canslo.

I dderbyn gwybodaeth bellach, cysylltwch ag Adran Trafnidiaeth Integredig y Cyngor ar **01495 235 223** neu drwy e-bostio cysylltiadauteithio@caerffili.gov.uk



Gwenyn Mêl yn Ymgartrefu ym Mhencadlys y Cyngor!

Yn ddiweddar, mae tua 80,000 o wenyn mêl wedi ymgartrefu ym mhencadlys y Cyngor yn Nhŷ Penallta.

Mae’r Cyngor yn gweithio gyda Sirhowy Valley Honeybee Company i helpu i gynyddu poblogaeth gwenyn yn y fwrdeistref sirol. Mae dau gwch gwenyn newydd wedi cael eu gosod yng nghornel bellaf y safle er mwyn i’r gwenyn gael mynediad at y coed a’r dail cyfagos.

Y gobaith yw, yn ogystal â chynyddu eu poblogaeth yn yr ardal, bydd y gwenyn mêl hefyd yn gwella’r safle trwy beillio’r planhigion sydd yno.

Meddai’r Cynghorydd Ken James: “Mae gwenyn mêl yn cyfrif am 80% o’r holl beillio gan bryfed ond yn drist iawn mae eu niferoedd wedi bod yn dirywio dros nifer o flynyddoedd. Fel awdurdod lleol, rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i helpu i gynyddu nifer y peillwyr a chodi ymwybyddiaeth am eu pwysigrwydd. Gobeithiaf y byddwn yn parhau i wneud hyn ac edrychaf ymlaen at weld y gwenyn mêl wrth eu gwaith o amgylch safle Tŷ Penallta.”

Mae’r prosiect hwn yn ffurfio rhan o waith Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy’n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a ddaeth i rym ym mis Ebrill.

Mae prosiect y gwenyn mêl yn Nhŷ Penallta yn dilyn prosiect cadw gwenyn llwyddiannus arall yn Ysgol Gynradd Ynysddu.

Bydd y prosiect hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion Ynysddu a’r ysgolion cyfagos ddysgu am bwysigrwydd peillwyr a dod yn wenynwyr gan ddysgu am fyd rhyfeddol gwenyn ar yr un pryd.

Deiliaid bathodyn glas eglurhad ynglŷn â pharcio

Yn rhifyn Mehefin o Newline, roedd erthygl ar gonsesiynau parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas.

Mae’r consesiwn sy’n gadael i ddeiliaid bathodyn glas i barcio am ‘amser amhenodol’ mewn mannau parcio aros cyfyngedig a mannau parcio i breswylwyr yn unig yn gweithredu ar stryd yn unig. Nodwch nad yw’r consesiwn ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn weithredol ym meysydd parcio y cyngor. Ymddiheuriadau am unrhyw gymhlethdod.

UNEDIG YN ERBYN TROSEDD CASINEB

Mae Caerffili yn unedig yn erbyn trosedd casineb, cafodd hyn ei atgyfnerthu mewn cyfarfod Cyngor yn ddiweddar.

Mewn Rhybudd o Gynnig gan Y Cyng. Roy Saralis, cytunodd cynghorwyr yn unfrydol fod:

“Rydym yn falch i fyw mewn cymdeithas amrywiol a goddefol. Nid oes lle i hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb yn ein gwlad. Mae ein cyngor yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb yn ddiamwys. Ni fyddwn yn caniatáu i gasineb i ddod yn dderbyniol. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrrf a rhaglenni lleol yn cael y cymorth a’r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymladd ac atal hiliaeth a senoffobia. Rydym yn rhoi sicrwydd i bawb sy’n byw yn yr ardal hon y maent yn aelodau gwerthfawr o’n cymuned.”

Dywedodd y Cyng. Roy Saralis, “Yn anffodus rydym i gyd yn rhy gyfarwydd â’r adroddiadau cenedlaethol am ddigwyddiadau hiliol a senoffobig a throseddau casineb diweddar, ac yma yng Nghaerffili rydym yn hollol glir ein bod yn condemnio troseddau o’r fath. Rydym yn falch o fyw mewn cymdeithas amrywiol a cheisiwn dawelu meddyliau’r holl bobl sy’n byw yn ein bwrdeistref sirol eu bod yn aelodau gwerthfawr o’n cymuned.

Ychwanegodd Y Cyng. James Pritchard, Pencampwr Cydraddoldeb Caerffili, “Mae’n rhaid i ni sefyll gyda’n gilydd i ymladd gwahaniaethu lle bynnag mae’n codi ei ben hyll. Bydd y cyngor yn gwneud pob ymdrech i fynd i’r afael â throsedd casineb, a byddwn yn gweithio gyda’r gymuned a’n partneriaid i sicrhau y bydd y cymorth orau ar gael i ddioddefwyr.”

Dylid adrodd troseddau casineb drwy ffonio Heddlu Gwent ar **101** (neu **999** mewn achos o argyfwng). Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd ar gael **24 awr y dydd** ar eu llinell gymorth am ddim **0300 30 31 982** neu ewch arlein at www.reporthate.victimsupport.org.uk

Newidiadau i Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmer

Mae mwy o drigolion ardal Caerffili yn cael mynediad at wasanaethau’r Cyngor ar-lein felly mae’r Cyngor wedi adolygu oriau agor ei Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmer lleol i adlewyrchu’r tuedd hwn.

Mae llai o bobl yn defnyddio’r cyfleusterau Gwasanaethau Cwsmer galw heibio erbyn hyn am fod modd talu biliau, gofyn am wasanaethau a chael mynediad at wybodaeth ar-lein 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Ers Dydd Llun 5ed Medi, mae oriau agor 5 o’r 7 canolfan wedi’u gostwng. Ar hyn o bryd, mae Canolfannau Gwasanaethau Cwsmer wedi’u lleoli yng Nghaerffili, Bargod, Rhisga, Coed Duon, Pontlotyn, Tŷ Penallta (dim newid) a Threcelyn (dim newid).

Meddai’r Cynghorydd Barbara Jones, “Rydym yn cydnabod bod y ffordd y mae ein trigolion yn rhyngweithio â’r Cyngor yn newid felly mae’n rhaid i ni ymateb i’r tuedd hwn. Mae ein gwefan yn cynnig ystod o wasanaethau rhyngweithiol ond rydym hefyd yn sylweddoli nad oes gan bawb fynediad at y rhyngwrdd felly byddwn yn parhau i gynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb er ar gapasiti llai.”

Roedd y cynnig i ostwng oriau agor yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus eang a gynhaliwyd pan oedd y Cyngor yn ystyried ei gynigion ar gyfer y gyllideb.

“Rydym am sicrhau y gall trigolion gael mynediad at wasanaethau’r Cyngor mewn ffyrdd sydd y mwyaf cyfleus iddynt. Mae’n bwysig ein bod yn cynnig y cymysgedd cywir a thra ein bod yn awyddus i groesawu technoleg newydd, mae hefyd yn rhaid i ni gynnig cyfleusterau mwy traddodiadol i sicrhau nad oes unrhyw drigolion yn cael eu heithrio”, ychwanegodd y Cynghorydd Jones.

Caiff manylion am yr oriau agor diwygiedig ar gyfer pob safle eu harddangos mewn Canolfannau Gwasanaethau Cwsmer neu mae modd gweld y rhestr lawn ar wefan y Cyngor - www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio **01443 815588**

Nadolig yn dod yn gynnar!

Er mai mis Medi yw hi mae’r cyngor yn prysur baratoi at adeg y Nadolig.

Mae Tim Rheoli Canol Trefi unwaith eto yn ymuno â’r manwerthwyr y fwrdeistref sirol i lansio llyfryn talebau Nadolig arbennig 'Dewiswch y Stryd Fawr,' a fydd yn cynnig gostyngiadau a chynigion gwych gan manwerthwyr ar brif strydoedd y fwrdeistref sirol.

Gallech gael y llyfryn o atyniadau ymwelwyr detholedig a siopau stryd fawr, yn ogystal â llyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaeth cwsmeriaid o ganol fis Hydref ymlaen, a gallech ddefnyddio'r talebau rhwng dydd Llun y 14eg o Dachwedd a dydd Gwener y 30ain o Ragfyr.

Mae’r cyngor hefyd yn brysur yn paratoi rhaglen digwyddiadau Nadolig- gyda nifer o ddigwyddiadau poblogaidd yn dychwelyd eleni:

- **Ffair Nadolig Ystrad Mynach** Dydd Sadwrn 19eg o Dachwedd
- **Ffair Nadolig Bargod** Dydd Sadwrn 26ain o Dachwedd
- **Ffair Nadolig Rhisga** Dydd Sadwrn 26ain o Dachwedd
- **Ffair Nadolig Coed Duon** Dydd Sadwrn y 3ydd a’r 4ydd o Ragfyr
- **Ffair Nadolig Caerffili** Dydd Sadwrn y 10fed o Ragfyr a Dydd Sul yr 11eg o Ragfyr
- **Llawr Sglefrio lâ ym Margod** Dydd Mercher y 14eg - Dydd Sul 18fed o Ragfyr
- **Gorymdaith Afon y Goleuni yng Nghaerffili** Dydd Iau'r 22ain o Ragfyr

Hefyd yn dychwelyd eleni fydd Ymgyrch Siôn Corn - apêl Nadolig arbennig sydd wedi ei drefnu gan y cyngor, sydd yn anelu at gefnogi dros 700 o blant ar draws yr ardal.

Gall bobl leol gymryd rhan drwy addo i brynu anrheg i blentyn - nid yw'r plant yma yn cael cymorth gan unrhyw apêl arall, ac maent wedi cael eu henwebu gan weithwyr cymdeithasol sydd yn gweithio gyda theuluoedd lleol. Gwylwch yma am fwy o wybodaeth ar sut i gymryd rhan!

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau’r Wyl, ewch i www.caerffili.gov.uk

Dywedwch wrthym am eich newidiadau

Anogir trigolion sy’n hawlio budd-dal tai neu ostyngiad treth y cyngor oddi wrth y cyngor i gysylltu â ni ar unwaith os bydd eu hamgylchiadau'n newid.

Mae angen i'r cyngor wybod am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar breswylwyr, eu partneriaid ac unrhyw un arall sy'n byw yn y cartref. Mae’n bwysig bod trigolion yn rhoi gwybod i'r cyngor am unrhyw newidiadau, gan y gallai effeithio ar swm y budd-daliadau maent yn eu derbyn. Hefyd, gall beidio rhoi gwybod i'r cyngor am newid mewn amgylchiadau, o fewn mis i hynny ddigwydd, arwain at breswylwyr yn colli allan ar fudd-daliadau.

Mae enghreifftiau o newidiadau y mae’n rhaid i drigolion ddweud wrth y cyngor amdanynt yn cynnwys:

- Newidiadau mewn incwm unrhyw un sy’n byw yn y cyfeiriad - gan gynnwys newidiadau budd-daliadau
- Newidiadau mewn cynilion/buddsoddiadau
- Newidiadau i Gymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith
- Newidiadau i Gredyd Treth Plant a / neu Gredyd Treth Gwaith
- Pan ydych chi neu’ch partner yn dechrau gweithio, newid swydd, mynd i’r ysbyty, neu os bydd rhywun yn ymuno neu’n gadael y cartref
- Mae plentyn yn gadael ysgol neu rywun sy’n byw yn yr eiddo 18 oed neu hŷn yn dechrau neu’n rhoi’r gorau i waith
- Newid mewn rhent (Tenantiaid Preifat yn unig)
- Derbyn Credyd Cynhwysol ■ Newid mewn cyfeiriad

Wrth gysylltu â’r cyngor, bydd angen i drigolion esbonio beth sydd wedi newid, dyddiad y newid ac anfon prawf o’r amgylchiadau newydd. Mae peidio â rhoi gwybod am newid a all effeithio ar eich budd-dal yn drosedd. Gall achos gweithredol gael ei gymryd yn erbyn trigolion os teimlir eu bod wedi oedi yn fwrriadol neu beidio rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau. Gall trigolion yng Nghaerffili bellach gwblhau ffurflenni 'Newid mewn Amgylchiadau' ar-lein drwy ymweld â’n gwefan - www.caerffili.gov.uk/Gwasanaethau/Tai-budd-daliadau/ Dywedwch wrthym am newidiadau. Fel arall, ffoniwch **01443 866567** neu e-bostiwch: budd-daliadau@caerffili.gov.uk am gymorth.

UsefulNumbers

MAIN SWITCHBOARD

PRIF SWITSFWRDD

01443 815588

Minicom

Minicom

01443 873626

Emergency Number for Council Services:

Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:

01443 875500

(Out of hours only • All an o Oriau yn unig)

Adults' Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

0808 100 2500

StreetPride

BalchderStryd

01443 866566

Blue Badge

Bathodyn Glas

01443 866571

RhifauDefnyddiol

Children's Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

0808 100 1727

Consumer Advice

Cyngor i Ddefnyddwyr

03454 040506

Council Tax Enquiries

Ymholiadau Treth y Cyngor

01443 863002

Furniture Recycling

Ailgylchu Dodrefn

01685 846830

Housing & Council Tax Benefits

Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

01443 864099

New Claims:

Hawliau Newydd

01443 866567

Existing Claimants:

Harbyr/Preswdd

01443 864099

Firework Safety

With bonfire night not far away, the council's Food, Health and Safety team have some safety advice for anyone thinking of using fireworks as part of their celebrations:

▲ Only buy fireworks marked B57114 or EN15947 and from a reputable retailer

▲ Ensure children are always supervised and keep pets indoors

▲ Keep fireworks in a closed box and use them one at a time

▲ Read and follow the instructions on each firework with a torch

▲ Light at arm's length, using a taper and then stand well back

▲ Never consume alcohol when setting off fireworks

▲ Wear gloves when holding sparklers, and never give them under fives

▲ Keep naked flames, including cigarettes away from fireworks

▲ Don't put fireworks in pockets or throw them - and never return to a firework once it's been lit

▲ Always keep a bucket of water to hand

Diogelwch Tân Gwylt

Gyda noson tân gwylt ddim yn bell i ffwrdd, mae gan dim Bwyd, Iechyd a Diogelwch y Cyngor rywfaint o gyngor diogelwch ar gyfer unrhyw un sy'n ystyried defnyddio tân gwylt fel rhan o'u dathliadau:

▲ Prynwch dân gwylt wedi'u marcio B57114 neu EN15947 ac o werthwr cyfrifol yn unig

▲ Sicrhewch fod plant yn cael eu goruchwyllo bob amser a chadwch anifeiliaid anwes dan do

▲ Cadwch dân gwylt mewn blwch caeedig a defnyddio un ohonynt ar y tro

▲ Darllenwch a dilynwch y cyfarwyddiadau ar bob tân gwylt gyda thorthsh

▲ Taniwch ar hyd braich, gan ddefnyddio tapr ac yna sefyll yn ddigon pell yn ôl

▲ Peidiwch byth ag yfed alcohol wrth danio tân gwylt

▲ Gwisgwch fenig wrth gynnal ffyn gwreichion, a pheidiwch byth â'u rhoi i blant o dan bump oed

▲ Cadwch fflamau noeth, gan gynnwys sigarêts, i ffwrdd o dân gwylt

▲ Peidiwch â rhoi tân gwylt yn eich poced neu eu taflu - a pheidiwch byth â dychwelyd at dân gwylt unwaith ei fod wedi cael ei gynnau

▲ Cadwch fwcod o ddŵr wrth law bob amser

Details of organised firework displays can be found at •

Celltir Cael Manylion am Arddangosfeydd Tân Gwylt a Drefnwyd Yma

www.caerphilly.gov.uk • www.caerffili.gov.uk

What's ON / Digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk
For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068

Picnic in the Park • Picnic yn y Parc

17/09 • 12pm - 4pm

Bedwas Riverside Park • Parc Glan-yr-afon Bedwas

Celebrate autumn by bringing a picnic and joining us for fun and games at the Riverside Park. Please bring suitable clothing. Suitable for all ages.

Dathlhwch dymor yr hydref trwy ddod â phicnic ac ymuno â ni ar gyfer hwyl, sbri a gemau ym Mharc Glan-yr-afon. Dewch â dillad addas. Addas i bob oedran.

01443 816 853

Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

A sensitive, thought-provoking and deeply moving play based on real-life events following the Aberfan mining disaster. Coming home to Wales to mark the 50th anniversary of the disaster. Tickets £14/£12. Age 12+

Drama sensitif ac emosynol sy'n pricio'r meddwl sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau bywyd go iawn yn dilyn trychineb glofaol Aberfan. Mae'n dod adre i Gymru i gofnodi 50 o flynyddoedd ers y drychineb. Tocynnau £14/£12. Oed 12+

01495 227 206

The Revlon Girl

21/10 - 2pm + 7.30pm • 22/10 - 7.30pm

A sensitive, thought-provoking and deeply moving play based on real-life events following the Aberfan mining disaster. Coming home to Wales to mark the 50th anniversary of the disaster. Tickets £14/£12. Age 12+

Drama sensitif ac emosynol sy'n pricio'r meddwl sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau bywyd go iawn yn dilyn trychineb glofaol Aberfan. Mae'n dod adre i Gymru i gofnodi 50 o flynyddoedd ers y drychineb. Tocynnau £14/£12. Oed 12+

01495 227 206

Craft Club - the Spooky Edition!

Clwb Crefftau - y Rhifyn Bwganlyd!

24,26,27,28/10 • 11am - 12pm

Winding House • Winding House

Join us for fun family craft sessions based on the more horrible side of our history. Part of the Welsh Museums Festival. £2.50 per child, children must be accompanied by an adult. Booking essential.

Ymunwch â ni am sesiynau crefft i'r teulu sy'n seiliedig ar ochr mwy ofnadwy ein hanes. Rhan o Wyl Amgueddfeydd Cymru. £2.50 y plentyn, mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. Archebu lle o flaen llaw yn hanfodol.

01443 822 666

The Big Draw • Y Darlun Mawr

25/10 • 11-12.30pm & 1.30-3pm

Winding House • Y Tŷ Weindio

This year's theme is "STEAM!" so where better to get involved in this national festival of drawing than inside our very own winding house - home to our amazing Victorian winding engine. We need your help to make the biggest, brightest scratch art drawing of our engine that we've ever seen! Free, just drop in.

Thema'r flwyddyn hon yw "STĒM!", a lle gwell i gymryd rhan yn yr wyf ddarlunio genedlaethol hon nag yn ein tŷ weindio ein hunain - cartref ein hinjan weindio syfrdanol Fictoriaidd. Rydym angen eich cymorth i wneud darlun celf ysgrafellu enfawr a'r mwyafrif llachar a welom erioed! Dydd Mawrth 25ain Hydref, 11-12.30pm a 1.30-3pm. Am ddim, galwch draw.

01443 822 666

Halloween Wildlife Fun • Hwyl Bywyd Gwylt Calan Gaeaf

28/10 • From 4pm

Parc Cwm Darran

Booking is essential. Archebu yn hanfodol

Join us as we hunt for the creatures that roam the park at night, and see if you can spot any spooky bats. Please wear appropriate footwear and clothing. Don't forget a torch! £3 per person.

Ymunwch â ni wrth i ni chwilio am greaduriaid sy'n crwydro'r parc gyda'r nos a gweld os gallwch chi ddod o hyd i unrhyw ystlumod bwganlyd. Gwisgwch esgidiau a dillad addas. Peidiwch ag anghofio eich torth! £3 y person.

01443 875557

Spooky Vampire Hunt • Helfa Fampiriaid Arswydus

29/10 • 10am - 3pm

Cwmarn Forest • Coedwig Cwmarn

Gather your clues around the trail to defeat Dracula and his vampires. But be aware, he might be lurking in the woods! Suitable for 4+. £4.50 per child including goody bag.

Casglwch eich clwiau o amgylch y llwybr i guro Dracula a'i fampiriaid. Ond byddwch yn ofalus, efallai ei fod yn llercian yn y goedwig! Addas i blant 4+ oed. £4.50 y plentyn gan gynnwys bag o anrhegion.

01495 272 001

Coal

24+25/11 • 7.30pm

Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon

In this story about community, solidarity and survival, Coal recalls the profound impact the pit closures of the 1980s had on mining communities. Tickets £14/£12. Age 12+

Yn y stori hon am gymuned, undod a goresio, mae Coal yn ail-gofio'r effaith ddwys y cafodd cau'r pyllau glo yn ystod y 1980au ar gymunedau glofaol. Tocynnau £14/£12. Oed 12+

01495 227 206

Crafty Snowmen Workshop

Gweithdy Dynion Eira Crefftsu

27/11 • from 11am

Cwmarn Forest • Coedwig Cwmarn

Join us and build your own cheeky snowman to decorate your festive home. Booking advised. £3.50 per child. Suitable for age 4+

Ymunwch â ni i adeiladu eich dyn eira dreidus eich hun i addurno eich cartref ar gyfer yr wyf. Awgrymir eich bod yn archebu lle o flaen llaw. £3.50 y plentyn. Addas i blant 4+ oed

01495 272 001

Traditional Skills Day • Diwrnod Sgiliau Traddodiadol

18/09 • 10am - 4pm

Llancaiach Fawr

Free entry to the manor as part of Cadw Open Doors Day. Handmade ceramics, jewellery making, spinning and feltmaking, quilting, and lacemaking - as well as blacksmithing demonstrations.

Mynediad am ddim i'r Maenordy fel rhan o Ddiwrnod Drysau Agored Cadw. Seramig a wneir â llaw, creu gemwaith, nyddu a gwneud felt, cwilio a gwneud les - yn ogystal ag arddangosiadau gwaith gof.

01443 412248

Star Wars: The Force Awakens!

18/09 • 10am - 4pm

Bargoed Open Air Cinema • Sinema Awyr Agored Bargoed

Bring a picnic, blanket and chair and sit back and relax while enjoying the film. Free entry. An adult must accompany children under 16.

Dewch â phicnic, blanced a chadair ac eisteddwrch nôl ac ymlaciwch tra'n mwynhau'r ffilm. Mynediad am ddim. Mae'n rhaid i blant o dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.

02920 880011

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk
I gael gwybodaeth am sgysrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

www.caerphilly.gov.uk/events www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

THE CAERPHILLY YOU WANT

Residents are invited to have their say on their vision for the future of their local area by taking part in an online survey.

The survey is framed around the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act which became law in April, and is intended to improve the wellbeing of the people of Wales. Public services must now think more about the long-term, working with local people and communities to help create a Wales we all want to live in, now and in the future. Involving residents is key to the success of this. To participate in the 'The Caerphilly YOU Want' survey, please visit www.caerphilly.gov.uk/involved. For a hard copy, please call 01443 864354. The closing date is Friday 30th September.

Gwahoddir trigolion i ddweud eu dweud am eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol eu hardal leol drwy gymryd rhan mewn arolwg ar-lein.

Mae'r arolwg yn cael ei fframio o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a ddaeth i rym ym mis Ebrill, a bwriedir iddo wella llesiant pobl Cymru. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus nawr feddwl mwy am y tymor hir, gan weithio gyda phobl a chymunedau lleol er mwyn helpu creu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae cynnwys preswylwyr yn allweddol i lwyddiant yr arolwg. Er mwyn cymryd rhan yn arolwg 'Y Gaerffili a Garech', ewch i www.caerphilly.gov.uk/involved. Am gopi caled, ffoniwch 01443 864354. Y dyddiad cau yw dydd Gwener 30 Medi.

Protecting You • Eich Diogelu Chi

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld. Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:

Trading Standards prosecutions • Erlyniadau Safonau Masnach

Name Enw	Offence Tramgwyyd	Court Decision Ddeddfwriaeth
Glen Avery of Tredegar	22 July 2016 at Newport Magistrates Court. Plying for hire in a vehicle not licensed as a Hackney Carriage. Failing to inform consumers that his vehicle was not appropriately insured. Using a vehicle on a road without appropriate insurance cover.	£480 fine, £200 costs to the local authority, £20 victim surcharge, disqualified from driving for 6 months. Town Police Clauses Act 1847. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. Road Traffic Act 1988.
Glen Avery o Dredegar	22 Gorffennaf 2016 yn Llys yr Ynadon Casnewydd. Gyrru taci sydd heb ei drwyddedu fel cerbyd hacnai Methu rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid nad oedd ei gerbyd wedi ei yswirio'n addas. Defnyddio cerbyd ar yr heol heb yswiriant addas	Ffein o £480, costau o £200 i'r awdurdod lleol, £20 gordal dioddefwr, gwahardd rhag gyrru am 6 mis. Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008. Deddf Traffig y Ffyrdd 1988.
Glyn Norman Mayne of Caerphilly	20 July 2016 at Cardiff Crown Court. Falsely claiming to be a "HETAS" registered engineer and business. Fitting unsafe solid fuel burning appliances. Fraud by misrepresentation.	8 months imprisonment suspended for 2 years, £4950 compensation to consumers, £100 victim surcharge, 160 hours unpaid work. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008 . Fraud Act 2006.
Glyn Norman Mayne o Gaerffili	20fed Gorffennaf 2016 LLys y Goron, Caerdydd. Honni ar gam i fod yn beiriannydd cofrestredig a busnes "HETAS". Ffio llosgyddion tanwydd solet anniogel. Twyll trwy camliwio.	8 mis o garchar wedi'i ohirio am 2 flynedd, iawndal o £4950 i ddefnyddwyr, £100 gordal dioddefwr, 160 awr o waith di-dâl. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 . Deddf Twyll 2006.
Simon Holmes of Cardiff	8 July 2016 at Newport Magistrates Court. Street Trading without appropriate consent from the local authority. Falsely described food as being 100% beef. Failed to make food allergy information available to consumers.	£100 fine, £100 costs to the local authority, £20 victim surcharge. Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982. Food Safety Act 1990 Food Information (Wales) Regulations 2014.
Simon Holmes o Gaerdydd	8 Gorffennaf 2016 yn Llys yr Ynadon Casnewydd. Masnachu ar y Stryd heb ganiatâd priodol oddi wrth yr awdurdod lleol. Disgrifiodd bwyd fel 100% cig eidion ar gam.Methododd wneud gwybodaeth alergedd bwyd ar gael i ddefnyddwyr.	Dirwy o £100, costau o £100 i'r awdurdod lleol, gordal dioddefwr o £20. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.
Michelle Holmes (aka Michelle Andrews) of Cardiff	8 July 2016 at Newport Magistrates Court. Street Trading without appropriate consent from the local authority. Failed to make food allergy information available to consumers.	£50 fine, £100 costs to the local authority, £20 victim surcharge. Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982. Food Information (Wales) Regulations 2014.
Michelle Holmes (a elwir hefyd yn Michelle Andrews) o Gaerdydd	8 Gorffennaf 2016 yn Llys yr Ynadon Casnewydd. Masnachu ar y Stryd heb ganiatâd priodol oddi wrth yr awdurdod lleol. Methodd wneud gwybodaeth alergedd bwyd ar gael i ddefnyddwyr.	Dirwy o £50, costau o £100 i'r Awdurdod Lleol, gordal dioddefwr o £20. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions
Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC. ● Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid aildefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

p.8 September 2016 Newsline

For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ewch i www.caerffili.gov.uk/newyddion

Newsline Medi 2016 t.8